



**Academi Genedlaethol ar gyfer
Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for
Educational Leadership Wales**

Cofnodion/Nodiadau Gweithredu o Gyfarfod y Bwrdd 25 Mai 2023

Yn Bresennol:

Sue Davies (SD) (Cadeirydd)
Tegwen Ellis (TE) (Prif Weithredwr)
Martin Price (MP)
Mike James (MJ)
Debbie Nash (DN)
Katie Phillips (KPH)
Yusuf Ibrahim (YI)
Paul Marshall (PM)
John Graystone (JG)
Charlotte Thomas (CT) (Rheolwr Cyfathrebu)
Chris Lewis (CL) (Cyfarwyddwr)
Gaynor Ace (GA) (Ysgrifenyddiaeth)

1. Croeso, cadarnhau cofnodion a chymau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf

Agorodd SD y sesiwn a chroesawu pawb i gyfarfod y Bwrdd heddiw. Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau. Nid oedd unrhyw wrthdaro buddiannau i'w nodi.

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod gwir a chywir.

Cyfeiriodd SD at y Log Gweithredu.

Cam Gweithredu 220 – cadarnhaodd TE y byddai'r Academi Arweinyddiaeth yn cynnwys logo LIC yn y brand. Roedd Gareth Key yn gwirio cyfeiriadau e-bost a byddai'n anfon rhestr wedi ei diweddarau ar ôl derbyn cadarnhad.

Adroddodd SD ar newidiadau staff diweddar yn LIC. Awen Penri fydd person cyswllt dros dro yr Academi Arweinyddiaeth gydag uned noddi Llywodraeth Cymru. Wrth symud ymlaen, bydd cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru ond yn mynychu cyfarfodydd y bwrdd ar wahoddiad y bwrdd neu pan fo eitemau penodol i'w trafod.

2. Diweddariad Cyfathrebu

Croesawodd SD y Rheolwr Cyfathrebu, Charlotte Thomas (CT) i'r cyfarfod ac fe gafwyd diweddariad ar lafar ganddi ar gyfathrebu a marchnata.

Hysbysodd CT y Bwrdd am newidiadau i Google Analytics a fyddai'n dod i rym ym mis Gorffennaf. Byddai'r newid mawr yn effeithio ar yr hyn a gofnodir yn yr adroddiad Cyfathrebu misol.

Adroddodd CT y bydd rhai termau'n newid gan effeithio ar rai o'r metrics cyfredol. Bydd yn ei gwneud yn anos cymharu metrigau o'r cyfnod cyn y newid ac ar ei ôl. Ni fydd cyfrif ar y tudalennau unigol a gaiff eu gweld yn y system newydd – gall hyn roi'r argraff fod llai o bobl wedi edrych ar y dudalen.

Bydd metrig y gyfradd adlamu yn newid i 'gyfradd ymgysylltu' sy'n golygu bod angen i ddefnyddwyr aros ar y dudalen am o leiaf 10 eiliad a gweld tudalennau dilynol hefyd. Mae'n anodd gosod meincnod i'r Academi Arweinyddiaeth yn erbyn sefydliadau eraill ond ystyriwyd bod cyfradd o 50% neu fwy yn gyfradd ymgysylltu dda. Ar hyn o bryd, mae ffigur yr Academi Arweinyddiaeth yn 57%.

Byddai metrig 'defnyddiwr newydd' yn parhau er y byddai angen i'r rhain fod yn ddefnyddwyr gweithredol a gallai arwain at ostyngiad yn y ffigur hwn. Bydd lawrlwythiadau dogfennau yn awr yn cael eu galw'n lawrlwythiadau ffeiliau ond ni fydd unrhyw newid i'r ffordd o fesur hyn.

Mae CT wrthi'n symud deunydd ar draws yn barod at y plattform newydd a bydd yn ceisio gwneud y newid hwn mor llyfn â phosibl. Croesawodd MJ'r diweddariad gan CT a'r asesiad o effaith y newidiadau hyn a sut y byddant yn effeithio ar y metrigau.

Gofynnodd YI sut y byddai newid o ddata cwcis i ddata amhersonol yn effeithio ar y cyrhaeddiad. Roedd CT yn credu na ddylai hyn gael effaith ddramatig gan na ddibynnwyd yn drwm ar Google Ads. Fodd bynnag byddai CT yn cadw golwg ofalus ar unrhyw ostyngiad sylweddol mewn metrigau.

Diolchodd SD i CT am ddarparu'r diweddariad gwybodus hwn ac am y rhybudd parod i bawb am newidiadau posibl i ddata marchnata.

3. Adroddiad y Pwyllgor Cyllid/Adnoddau Dynol

Rhoddodd MP adroddiad cryno o gyfarfod y Pwyllgor Cyllid/Adnoddau Dynol a gynhaliwyd yn gynharach yn y mis.

Nid oedd unrhyw faterion mawr o ran staff ac AD i'w hadrodd ac roedd y model hybrid yn dal i weithio'n dda.

Roedd Kirsty Payne (KP) wedi cyflwyno adroddiad ar gyllideb y llynedd ac wedi llwyddo i gadw'r arian gweddill o fewn y lwfans o 2%. Mynegodd y pwyllgor eu diolch i KP am reoli'r gyllideb mor ofalus. Roedd y cyfrifon blynyddol drafft am y flwyddyn wedi'u hystyried a chytunwyd i gynnwys naratif i esbonio beth oedd yn ymddangos fel gwarged sylweddol – roedd yn ymwneud yn bennaf â phryd y derbyniwyd yr anfonebau.

Roedd y pwyllgor wedi ystyried yr adolygiad teilwredig ond nid oedd unrhyw fanylion ar gael eto. Roedd dau aelod o'r Bwrdd yn mynd i gael eu cynnwys yn yr adolygiad hwn yn cynnwys SD fel Cadeirydd y Bwrdd.

Diolchodd SD i MP am ei adroddiad ac roedd y **Bwrdd yn hapus i dderbyn cofnodion y pwyllgor.**

4. Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Cyflwynodd MJ yr adroddiad o gyfarfod y pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a gynhaliwyd yn gynharach yn y mis.

Mae'r adroddiad gan yr archwilwyr mewnol wedi dyfarnu lefel o sicrwydd rhesymol dros y flwyddyn ariannol 2022/23. Dyma'r radd uchaf bosibl ac estynnodd MJ longyfarchiadau i KP a'r tîm am eu holl ymdrechion.

Mae KP wedi creu polisi rheoli risg sydd wedi'i adolygu gan yr archwilwyr mewnol ac aelodau'r pwyllgor. Estynnodd MP longyfarchiadau i KP ar waith rhagorol gan nodi yn arbennig y sylw i sicrwydd risg. **Roedd y Bwrdd yn hapus i dderbyn y polisi newydd hwn.**

Ystyriwyd sefyllfa newidiol Archwilio Cymru sydd wedi bod yn mabwysiadu safon archwilio ddiwygiedig yn ddiweddar gyda llawer mwy o bwyslais ar reoli risg. Bydd hyn yn newid y ffocws o edrych ar dystiolaeth o gydymffurfio i wirio am ddiffyg cydymffurfiaeth. Cydnabuwyd hefyd y bydd angen llawer o waith paratoi. Awgrymodd MJ y dylid darllen ar draws o'r safonau archwilio newydd i'r polisi rheoli risg. Mae'n rhaid i'r sefydliad gael sicrwydd hefyd ei fod yn gweithredu'r polisi newydd - cytunwyd bod rhywfaint o waith ar ôl i'w wneud yn hyn o beth. .

Mae Kirsty Payne wedi cael cyfarfod gydag Archwilio Cymru i drafod yr archwiliad allanol o'r datganiadau ariannol ar gyfer 2022/23. Byddant yn mynychu cyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf i gyflwyno eu cynllun archwilio, cyn cynnal eu harchwiliad ym mis Awst. Y bwriad yw adrodd ar eu barn archwilio i'r Bwrdd ym mis Medi..

Awgrymodd SD y dylai Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio fod yn ail aelod o'r Bwrdd ar gyfer yr adolygiad teilwredig. Roedd MJ yn hapus i dderbyn y rôl hon a **chytunodd holl aelodau'r Bwrdd ar hyn.**

Diolchodd SD i MJ am ei adroddiad. **Roedd y Bwrdd yn hapus i dderbyn cofnodion y pwyllgor a'r adroddiad archwilio.**

5. Adroddiad Gwerthuso a Data

Daeth Dr Chris Lewis (CL) i ymuno â TE a chyflwynodd y ddau drosolwg o'r Fframwaith Canlyniadau a Thystiolaeth sy'n nodi sut mae'r sefydliad yn gwerthuso ei ffrydiau gwaith a'i weithgarwch. Pwysleisiodd TE pa mor bwysig yw bod yn agored a gonest wrth ystyried mecanweithiau gwerthuso cyfredol a pharatoi at y camau nesaf.

Nododd TE yr egwyddorion sy'n sail i'r fframwaith hwn ac sy'n helpu i sicrhau gwerth am arian a bod yn atebol am bob gwariant. Mae'r rhain yn cynnwys effaith strategol a dal i gyfrif am nodau byrdymor, canoldymor a hirdymor. Pwysleisiodd TE bwysigrwydd her, bod yn ymatebol i'r system a bod yn barod i symud i gyfeiriad gwahanol os oes angen hefyd.

Aeth TE ymlaen i esbonio'r dulliau gwerthuso. Mae'r rhain yn cynnwys arolygon cyfranogwyr, comisiynu ymchwil, archwiliadau dwfn, adolygiadau gan gymheiriaid, adroddiadau archwilio mewnol a sgysiau proffesiynol. Mae'r adolygiadau dwfn hyn yn effeithiol iawn i graffu ar yr holl ffrydiau gwaith yn fewnol a'u cwestiynu. Cynhelir sgysiau proffesiynol gyda Chymdeithion a rhanddeiliaid ehangach.

Mae adroddiadau gwerthuso'n dilyn pob digwyddiad neu bob cyfres o ddigwyddiadau. Cydnabuwyd mai adolygiad gan gymheiriaid yw un o'r elfennau gwerthuso gwannaf hyd yma. Efallai y bydd mwy o gyfle i ddatblygu hyn pan fydd yr adolygiad haen ganol wedi'i gwblhau.

Dangosodd TE y Cynllun Gweithredol sy'n cael ei drafod mewn cyfarfodydd rheoli. Mae hwn yn cyd-fynd â'r holl flaenoriaethau a nodwyd yn y llythyr cylch gwaith ac mae'n cael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau bod y sefydliad ar y trywydd iawn i fodloni canlyniadau disgwylidig. Gofynnodd DN a allai aelodau'r Bwrdd weld y cynllun hwn. Er yn hapus i'w rannu, pwysleisiodd TE na fyddai aelodau'r Bwrdd angen y lefel honno o fanylder yn gyffredinol gan y dylai eu ffocws fod yn fwy strategol.

Roedd YI yn teimlo bod y daenlen hon yn glir iawn ac yn ffordd dda o osod y gwahanol ffrydiau gwaith a sut i'w mesur. Roedd MJ hefyd wedi ei blesio â'r offeryn cynllunio hwn ond gofynnodd a oedd cyfarfodydd amgen gyda'r tîm hefyd yn digwydd. Roedd CL yn hapus i gadarnhau bod cyfarfodydd a sgysiau heb eu trefnu'n cael eu cynnal yn rheolaidd.

Amlinellodd TE y camau nesaf i'r fframwaith sy'n cynnwys safoni'r dull o werthuso digwyddiadau. Cydnabu TE fod rhagor i'w wneud eto ond roedd yn falch o'r ffordd mae'r fframwaith hwn wedi'i lenwi â thystiolaeth nid geiriau yn unig.

Ychwanegodd CL hefyd fod y trafodaethau rhydd a gonest gyda Llywodraeth Cymru yn profi'n ddefnyddiol iawn wrth werthuso gwaith.

Mewn ymateb i ymholiad gan SD ynghylch amserlenni, atebodd TE y byddai'r broses werthuso yn barhaus er mai unwaith y flwyddyn y byddai'r fframwaith yn cael ei werthuso.

Gofynnodd JG sut y gellid cymharu cynnydd o un flwyddyn i'r llall a hefyd a oedd unrhyw sefydliadau tebyg y gellid eu defnyddio ar gyfer meincnodi.

Dywedodd TE fod OB3 yn cael ei gomisiynu i gynllunio arolwg arweinyddiaeth ac y dylai fod yn ddefnyddiol ar gyfer meincnodi. Amlinellodd TE yr anawsterau o ran canfod sefydliadau tebyg eraill y gellid meincnodi yn eu herbyn. Mae'n ymddangos bod yr Academi Arweinyddiaeth yn debyg i Ganolfan Arweinyddiaeth Ysgolion, Iwerddon ond mae'r ganolfan ar fin cael ei llyncu gan y llywodraeth felly gall ei rôl a'i chylch gwaith newid. Dylai'r adolygiad haen ganol helpu i ddiffinio rolau yn y sector.

Cyfeiriodd YI at y gwahaniaeth rhwng allbynnau a chanlyniadau – mae canlyniadau'n llawer ehangach ac maent yn cynnwys agweddau, hyder a sgiliau. Awgrymodd YI y gellid creu llinell sylfaen ryngwladol ar gyfer cyd-destunoli. Pwysleisiodd hefyd y gwahaniaeth rhwng newidiadau byrdymor o ganlyniad i hyfforddiant a newidiadau hirdymor sy'n cwmpasu cynnydd cymdeithasol ac ehangach. Diolchodd TE i YI am rannu'r safbwyntiau diddorol hyn.

Nid oedd MJ yn pryderu'n ormodol am y diffyg gallu i fesur rhai agweddau a gofynnodd a oedd angen clymu â'r cylch gwleidyddol yng Nghymru. Cadarnhaodd TE y byddai'r cynllun hwn yn cyd-fynd â'r cylch cyfredol a bydd yn dod i ben yn 2026.

Diolchodd PM i TE a CL am eu cyflwyniad a chyfeiriodd at sefydliad yr oedd ef yn cydweithio â nhw ar hyn o bryd yn Awstralia sydd â model tebyg i'r model Cymdeithion. Byddai PM yn hapus i rannu eu profiadau. Awgrymodd y gallai fod yna fodelau rhyngwladol tebyg a fyddai'n darparu cymariaethau defnyddiol.

Diolchodd SD i TE a'r tîm am lunio fframwaith mor drawiadol ac am werthuso'n barhaus er mwyn parhau i fod yn ymatebol i anghenion y system.

6. Adroddiad y Prif Weithredwr yn erbyn y Cynllun Corfforaethol

Dechreuodd TE drwy ystyried yr offeryn monitro gwleidyddol sy'n darparu mynediad llawer cynt at wybodaeth a chyfeiriadau i'r Academi Arweinyddiaeth. Mae'n bleser nodi bod y Gweinidog yn awr yn cyfeirio at y sefydliad fel un o'r prif chwaraewyr yn yr haen ganol.

Yna, darparodd TE adroddiad cynnydd ar yr holl ffrydiau gwaith gan dynnu sylw at gynnydd a chyflawniadau diweddar:

Para 1.1 Sicrwydd Ansawdd – Derbyniwyd cais am gymeradwyaeth gan DARPL (dysgu proffesiynol amrywiaeth a gwrth-hiliaeth) – bydd yr hyfforddiant hwn yn cynnwys llywodraethwyr ac arweinwyr uwch. Gwelir hyn yn gam cadarnhaol iawn sy'n sicrhau bod gan lywodraethwyr fynediad at ddysgu proffesiynol gwrth-hiliol.

Mae sgysiau'n parhau â Llywodraeth Cymru am ariannu yn dilyn cymeradwyaeth a sut i gynyddu ei werth yn y system. Bydd corff arall ar gael yn fuan i gymeradwyo darpariaeth ac eithrio darpariaeth arweinyddiaeth ac mae TE wedi cael gwahoddiad i fod yn aelod o grŵp llywio'r corff newydd hwn.

Gofynnodd YI am y cysylltiadau rhwng ysgolion a lleoliadau eraill. Cadarnhaodd TE fod comisiwn Cohort 5 ar y Cwricwlwm i Gymru'n cwmpasu'r holl ddarpariaeth yn cynnwys cynradd, uwchradd, ieuencid ac Ôl-16. Bydd TE yn gofyn i Gymdeithion anfon canfyddiadau ymlaen at YI.

Cyfeiriodd JH at adroddiad thematig Estyn ar lywodraethu a chadarnhaodd TE ei bod yn mynd i gyfarfod â Llywodraeth Cymru i drafod ymhellach. Cytunodd TE i ddsbarthu dolen i adroddiad Estyn.

Para 1.2 Arloesi - Cyfeiriodd TE at yr ystod fawr o feysydd sy'n cael eu hariannu drwy'r llwybr arloesi ar hyn o bryd - y targed yw cael o leiaf 3 o'r rhain i ddod ymlaen

i gael eu cymeradwyo. Bwriedir defnyddio cyllid arloesi ar gyfer gweithgarwch ymholiadau wrth symud ymlaen.

Para 1.3 Arweinyddiaeth System – Mae paneli craffu ar gyfer Cohortau 3 a 4 wedi'u cwblhau bellach. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda swyddogion LIC a chytunwyd i beidio â chynnal lansiad cyhoeddus i adroddiadau'r comisiwn. Mae comisiynau Cohort 5 ar Lesiant a Chwricwlwm i Gymru wedi dechrau.

Mae recriwtio ar gyfer Cohort 6 yn mynd rhagddo'n dda a derbyniwyd mwy o geisiadau nag erioed o'r blaen. Mae'r Ffederasiwn o Gymdeithion yn cael ei greu. Mae cylch gorchwyl wedi'i ddrافتio a Chadeirydd wedi'i nodi. Bydd Cymdeithion yn cael gwahoddiad i ymuno â'r grŵp a byddant yn hunangyfeiriedig.

Mae'r cynllun peilot Pencampwyr Cyrhaeddiad yn tynnu tua'r terfyn a bydd gwerthusiad llawn ohono'n cael ei gynnal dros yr haf.

Para 1.4 Datblygu Arweinyddiaeth - Mae'r gyfres Datgloi Arweinyddiaeth yn mynd rhagddi'n dda ac mae ceisiadau'n cael eu derbyn am bynciau penodol. Mae llai o niferoedd wedi bod yn mynychu a gellir priodoli hyn i ba mor adnabyddus yw'r siaradwr. Mae sesiynau Pen-i-ben yn parhau gyda dull thematig - mae'r niferoedd yn is yma eto. Mae'r digwyddiadau tair gwlad yn parhau.

Tynnodd TE sylw at gynhadledd Dysgu Proffesiynol Gwrth-Hiliol Amrywiaeth (DARPL) a gynhaliwyd ar y cyd rhwng DARPL, CGA a'r Academi Arweinyddiaeth ar 8 Mehefin. Roedd TE yn falch o gyhoeddi y bydd YI yn cyflwyno yn y gynhadledd hon. Pwysleisiodd TE bwysigrwydd bod yn rhagweithiol yn agenda Gwrth-hiliol Cymru ac mae wedi gofyn i'r pwyllgor gynnwys hyn fel eitem reolaidd ar yr agenda. Mae hefyd yn gobeithio recriwtio Cydymaith o gefndir amrywiol. Mae YI yn hyderus bod y sefydliad yn mynd i'r cyfeiriad cywir o dan arweinyddiaeth TE ac roedd yn croesawu cynnwys gwrth-hiliaeth ar yr agenda.

Soniodd JG am y cysyniad o Gymru fel cenedl noddfa sy'n darparu croeso i ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Cyfeiriodd MJ at is-frandiau fel Datgloi Arweinyddiaeth a Pen-i-ben a phwysigrwydd sicrhau bod y rhain yn gysylltiedig â'r Academi Arweinyddiaeth bob amser. Diolchodd TE i MJ am godi hyn.

Soniodd TE fod tocynnau ar gael ar gyfer y gynhadledd Arwain Cwricwlwm i Gymru ar 21 Mehefin. Dylai fod yn gyfle i edrych ar y sector Ôl-16 a'r sector ieuencid hefyd. Gwahoddodd TE aelodau'r Bwrdd i ddod i'r gynhadledd ac i fynychu gweithdai.

Para 2.1 Adnoddau – Mae'r adnoddau Dysgu Proffesiynol yn dal i gael eu defnyddio er y bydd hi'n cymryd peth amser i ddeall eu heffaith yn llawn.

Para 2.2 Mewnwelediad – Mae'r contract gyda'r Athro Carol Campbell bellach wedi'i lofnodi. Dylai hwn fod yn ddarn gwirioneddol dda o waith sy'n ystyried ymarfer myfyriol. Mae TE eisoes wedi cyfeirio at yr arolwg Arweinyddiaeth gydag OB3.

2.3 Llesiant – Cyflawnwyd Cam 1 y gwaith Arweinyddiaeth Dosturiol ac mae cyllid nawr ar gael yn barod ar gyfer Cam 2.

2.4 Cynllunio'r Gweithlu Strategol – Mae seminar NIESR ar ganfyddiadau dros dro'r prosiect Recriwtio a Chadw wedi'i aildrefnu ar gyfer 9 Mehefin. Dylai gwaith fod wedi'i gwblhau erbyn mis Hydref a dylai'r data ansoddol a gynhyrchir fod yn ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru. Mae pam mae pobl yn gadael rolau arwain ym myd addysg yn dal i fod yn destun pryder mawr.

3.1 Llywodraethu Effeithiol – Nid yw'r llythyr amrywio cynnig grant wedi'i dderbyn eto ond fe'i disgwylir erbyn diwedd Mai.

Roedd TE a KPH wedi cynnal cyfweiliadau heddiw ar gyfer Pennaeth yr Iaith Gymraeg ac roedd un ymgeisydd wedi bod yn llwyddiannus. Roedd yr ymgeisydd wedi creu argraff dda ar KPH ac wedi cytuno y dylai ddod â dimensiwn ychwanegol i waith y sefydliad.

Bydd yr adolygiad wedi'i deilwra'n cael ei gynnal y flwyddyn nesaf – dylai hyn roi cyfle i gael safbwyntiau annibynnol ar waith yr Academi. Bydd yr adolygiadau thematig yn dechrau ym Medi 2023. Bydd TE yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i bawb am gynnydd. Awgrymodd MJ rannu gwybodaeth pan fydd ar gael gyda'r archwilwyr mewnol ac roedd TE yn credu bod hyn yn syniad rhagorol.

3.2 Swyddogaeth Weithredol – Mae'r cynllun gweithredol yn cael ei ddatblygu i gyfrannu at y ffrydiau gwaith. Y bwriad yw ei gwblhau erbyn diwedd Mehefin.

Mae gofod swyddfa Uned yn profi i fod yn ddefnyddiol iawn i hwyluso mwy o gyfarfodydd wyneb yn wyneb. Bydd TE yn llofnodi'r brydles yr wythnos hon ar yr uned storio newydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

3.3 Cyfathrebu a Marchnata – Darparodd CT ddiweddariad o dan eitem 2 yr agenda. Os oes gan unrhyw un ragor o gwestiynau, bydd CT yn barod i'w hateb.

3.4 Rhanddeiliaid a Gwaith Partneriaeth – Sefydlwyd grŵp gweinidogol o Benaethiaid Ysgolion ond roedd gormod o aelodau. Roedd LIC wedi gofyn am 3 grŵp yn wreiddiol (cynradd, uwchradd a phob oedran) ond mae bellach wedi gofyn am greu grŵp ysgolion arbennig hefyd. Cynhaliwyd y cyfarfod ar-lein cyntaf ddoe. Roedd hwn yn gyfle gwirioneddol i ddod â llais arweinyddiaeth yn llawer agosach ac mae'n enghraifft arall o sut mae'r Academi Arweinyddiaeth yn cymryd rôl arweiniol i ddatblygu arweinwyr.

Mae Cytundebau Partneriaeth yn cael eu llofnodi ar hyn o bryd a bydd angen eu rhoi ar waith wedyn.

Yn sgil ei hymweliad diweddar â Singapore, soniodd TE am ei hargraffiadau defnyddiol iawn o system addysgol arall a fu'n gymorth i werthuso'r system Gymreig. Bydd TE yn rhannu'r adroddiad pan fydd wedi'i gwblhau.

Bydd TE, CL a Chydymaith yn mynychu cynhadledd Belmas yn Belfast ym mis Gorffennaf ac yn rhoi cyflwyniad poster i ar sut mae'r gwaith comisiwn yn dylanwadu ar bolisi.

Roedd JG yn cydnabod gwerth ymweliadau rhyngwladol ac yn cytuno eu bod yn helpu i ystyried system y DU. Byddai JG yn croesawu gweld adroddiadau ar bob ymweliad rhyngwladol diweddar. Soniodd TE am symposiwm rhyngwladol sy'n cael

ei gynnal ar 6 Gorffennaf yng Nghaerdydd. Bydd hwn yn rhoi sylw i brofiadau o'r holl deithiau rhyngwladol a bydd grŵp o Benaethiaid o Awstralia yn bresennol hefyd. Mae TE am holi a ellir recordio'r digwyddiad hwn.

Diolchodd SD i TE am adroddiad llawn gwybodaeth a chynhwysfawr a oedd yn amlygu'r holl faterion allweddol.

7. Dyddiad y cyfarfod nesaf, eitemau agenda yn y dyfodol a chau'r cyfarfod

Diolchodd SD i bawb am gymryd rhan yn y cyfarfod heddiw ac am eu trafodaethau diddorol.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd ar 18 Gorffennaf – cyfarfod ar-lein gyda chyfarfod wyneb yn wyneb yn dilyn ym mis Medi. Atgoffodd SD bawb am Eisteddfod yr Urdd yn Llanymddyfri yr wythnos ganlynol a gwahodd aelodau'r Bwrdd i fynychu a chefnogi'r tîm os yn bosibl.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.35pm

Log Gweithredu

Rhif		Perchennog	Dyddiad Cau	Statws
209	Amlygu unrhyw beth perthnasol o'r adroddiad monitro gwleidyddol	MP	Parhaus	
220	Anfon rhestr wedi'i diweddarau o gyfeiriadau e-bost	Gareth Key	Mehefin 2023	
221	Gofyn i Gymdeithion gynnwys YI wrth bostio gwaith cwricwlwm	TE	Parhaus	
222	Dosbarthu'r ddolen i adroddiad Estyn	TE	Mehefin 2023	
223	Gwirio a oes modd recordio'r symposiwm rhyngwladol	TE	Mehefin 2023	

8.